Sut mae *Tropilaelaps* yn cael eu lledaenu?

Gwyliwch wenynwyr!



Mae *Tropilaelaps* yn ymledu!

Gwenynwyr yw prif achos trosglwyddo *Tropilaelaps*. Mae cadw gwenyn mudol yn gyffredin yng ngorllewin Asia a dwyrain Ewrop. Mae gwerthu gwenyn ar ffurf breninesau, pecynnau a cytrefi hefyd yn peri risg sylweddol ar gyfer lledaenu Tropilaelaps. Bob blwyddyn mae gwenynwyr y DU yn mewnforio miloedd o freninesau o Ewrop yn uniongyrchol. Mae gwenyn hefyd yn dod i'r DU trwy lwybr masnach lwerddon / Gogledd lwerddon.Mae cytrefi gwyllt a heidiau ar longau cargo ac awyrennau hefyd yn peri risg o drosglwyddo *Tropilaelaps*.

Mae'n bwysig bod gwenynwyr yn wyliadwrus o fygythiad *Tropilaelaps*.

Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn gweld *Tropilaelaps* yn fy nghwch gwenyn?

Mae *Tropilaelaps* yn bla hysbysadwy stadudol a rhaid rhoi gwybod i'r Uned Wenyn Genedlaethol www.nationalbeeunit.com, 0300 303 0094, nbu@apha.gov.uk am unrhyw achosion o'u gweld.

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan www.phira-science.org a thrwy ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol.

@PHIRA-Science **phirascience**

PHIRA-Science **@PHIRA_Science**

©PHIRA-Science 2025




GOFALWCH AM FYGYTHIAD TROPILAELAPS!

Beth yw *Tropilaelaps*?

Gwiddon parasitig yw *Tropilaelaps* sy'n tarddu o Dde-ddwyrain Asia ac sy'n bwydo ac yn atgenhedlu mewn epil gwenyn mêl. Mae'r parasiteiddio hwn yn niweidio'r epil ac yn trosglwyddo firysau, gan wanhau cytrefi a'i lladd yn aml.Mae *Tropilaelaps mercedesae* wedi ymledu i'r gorllewin allan o Asia ac fe'i cadarnhawyd yn Nwyrain Ewrop am y tro cyntaf yn 2024.

COFIWCH!
Mae Tropilaellaps tua 1/3 maint Varroa ac maent yn anodd iawn i'w canfod mewn cytref.



Adnabod.




Mae *Tropilaelaps* yn lliw brown cochlyd ac yn mesur tua 1mm o hyd a 0.5 mm o led. Mae ganddynt wyth coes, ond yn aml gellir camgymryd eu pâr blaen am antena.Maent yn symud yn gyflym ac yn nodweddiadol byddant yn rhedeg o *amgylch ymyl celloedd epil agored. Sganiwch y cod QR i wylio fideo o'u symudiad.*

Symptomau o fewn y cwch/cytref.

Mae symptomau pla *Tropilaelaps* yn debyg iawn i symptomau Varroa. Os gwelwch unrhyw un o'r canlynol dylech ymchwilio ymhellach i ganfod yr achos.

- Patrwm mag "pot pupur" gyda chapiau cwyr tyllog.
- Capiau cwyr y mag wedi'i gnoi a larfa wedi canibaleiddio.



- Gwanhau cytref yn gyffredinol.
- Gwenyn aeddfed gydag abdomenau crebachlyd ac adenydd anffurf.

COFIWCH!
Gall nythfa gael ei heintio â *Varroa* a *Tropilaelaps*. Mae'r symptomau'n debyg iawn. Peidiwch â chymryd yn ganiataol mai *Varroa* yw'r unig broblem mewn cytref sy'n methu!

